OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 3207 (Cy. 317)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) a Bwyd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *18 Rhagfyr 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *19 Rhagfyr 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *12 Ionawr 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion yr adran honno mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd(**2**), mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol ar gyfer amddiffyn iechyd y cyhoedd(**3**) a mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu a fwydir iddynt(**4**), fel y'i darllenir gyda pharagraff 1A o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau at yr Atodiadau i offeryn yr UE a grybwyllir yn rheoliad 2(3) a 3(2)(b) gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr Atodiadau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

Ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio'r Rheoliadau hyn yn unol â gofynion Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**5**).

(**1**) 1972 p.68. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (2006 p.51) ac fe'i diwygiwyd gan Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (2008 p.7).
(**2**) O.S. 2010/2690.
(**3**) O.S. 2008/1792.
(**4**) O.S. 2005/1971.
(**5**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n addasu nifer o offerynnau sy''n ddarostyngedig I'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468 o ran y weithdrefn reoleiddiol ynghyd â chraffu: addasiad i'r weithdrefn reoleiddiol ynghyd â chraffu – Rhan Pedwar (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) a Bwyd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2013, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 12 Ionawr 2014.

### Diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005(**6**) wedi eu diwygio yn unol â pharagraffau (2) i (5).

(2) Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli), yn lle'r diffiniad o "Rheoliad 183/2005" rhodder y diffiniad a ganlyn—

"ystyr "Rheoliad 183/2005" ("*Regulation 183/2005*") yw Rheoliad (EC) Rhif 183/2005 12 Ionawr 2005 sy'n gosod gofynion o ran hylendid bwyd anifeiliaid(**7**);".

(3) Ar ôl paragraff (4) o reoliad 2, ychwaneger y paragraff a ganlyn —

"(5) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at Atodiad i Reoliad 183/2005 yn gyfeiriad at yr Atodiad hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.".

(4) Yn lle rheoliad 4 (awdurdodau cymwys) rhodder y rheoliad a ganlyn —

"**4.**—(1) Yr awdurdodau cymwys at ddibenion Erthyglau Rheoliad 183/2005 yw —

(a) mewn cysylltiad ag Erthyglau 9(1) a (3), 18(3), 20(2), 21(1) a 22(2)(b), yr Asiantaeth a'r awdurdod gorfodi;

(b) mewn cysylltiad ag Erthyglau 7, 9(2), 10, 13, 14, 15, 16, 17, 18(1), (2) a (4) a 19(2), yr awdurdod gorfodi; ac

(c) mewn cysylltiad ag Erthygl 19(1), yr Asiantaeth.

(2) Yr awdurdodau cymwys at ddibenion yr adran sy'n dwyn y pennawd "Monitro Diocsinau" yn Atodiad II i Reoliad 183/2005 yw —

(a) mewn cysylltiad â pharagraff 2(e), yr awdurdod gorfodi; a

(b) mewn cysylltiad â pharagraff 7, yr awdurdod gorfodi a'r Asiantaeth.".

(5) Yn lle cynnwys Atodlen 2 (ffioedd sy'n daladwy am gymeradwyaethau) rhodder cynnwys Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

### Diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2010

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2010(**8**) wedi eu diwygio yn unol â pharagraffau (2) i (4).

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli a chwmpas) —

(a) ym mharagraff (1), hepgorer y diffiniad o Rheoliad 242/2010; a

(b) yn lle paragraff (3) rhodder y paragraff a ganlyn —

"(3) Mae unrhyw gyfeiriad at Atodiad i Gyfarwyddeb 82/475, Cyfarwyddeb 2002/32, Cyfarwyddeb 2008/38 neu Reoliad 767/2009 yn gyfeiriad at yr Atodiad hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.".

---

(**6**) O.S. 2005/3368. Mae'r offeryn hwn wedi cael ei ddiwygio gan O.S. 2006/3256 (Cy.296), O.S. 2009/3376 (Cy.298), O.S. 2010/2287 (Cy.199) ac O.S. 2010/2652 (Cy.220).

(**7**) Diwygiwyd y Rheoliad hwn ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 225/2012 sy'n diwygio Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 183/2005 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran cymeradwyo sefydliadau sy'n gosod ar y farchnad, at ddefnydd bwyd anifeiliaid, gynnyrch sy'n deillio o olewau llysiau a brasterau cyfunol ac o ran y gofynion penodol ar gyfer cynhyrchu, storio, cludo a phrofi diocsinau olewau, brasterau a chynnyrch sy'n deillio ohonynt (OJ Rhif L77, 16.3.2012, p.1).

(**8**) O.S. 2010/2652 (Cy.220).

(3) Yn lle paragraff (1) o reoliad 4 (gorfodi gofynion Rheoliad 767/2009), rhodder y paragraff a ganlyn —

"**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol a geir yn Erthygl 32, mae unrhyw berson —

(a) sy'n mynd yn groes i ddarpariaethau Rheoliad 767/2009 a bennir yn Atodlen 1 neu'n methu â chydymffurfio â hwy; neu

(b) sy'n gosod ar y farchnad neu sy'n defnyddio unrhyw fwyd anifeiliaid sy'n methu â chydymffurfio ag Erthygl 6(1) neu 8, yn euog o dramgwydd.".

(4) Yn lle cynnwys Atodlen 1 (darpariaethau penodedig Rheoliad 767/2009) rhodder cynnwys Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

18 Rhagfyr 2013

## ATODLEN 1

Rheoliad 2(5)

“ATODLEN 2

FFIOEDD SY’N DALADWY AM GYMERADWYAETHAU

| *Gweithgaredd y mae’n ofynnol i’r sefydliad gael cymeradwyaeth ar ei gyfer* | *Ffi (£)* |
|---|---|
| Gweithgynhyrchu’n unig sylweddau y cyfeirir atynt yn Erthygl 10(1)(a) neu (b) o Reoliad 183/2005, neu eu gweithgynhyrchu a’u gosod ar y farchnad ac eithrio’r ychwanegion bwyd anifeiliaid hynny a bennir yn rheoliad 2(3), neu rag-gymysgeddau o’r cyfryw ychwanegion | 451.00 |
| Gosod ar y farchnad sylweddau y cyfeirir atynt yn Erthygl 10(1)(a) neu (b) o Reoliad 183/2005 ac eithrio’r ychwanegion bwyd anifeiliaid hynny a bennir yn rheoliad 2(3), neu rag-gymysgeddau o’r cyfryw ychwanegion | 226.00 |
| Unrhyw un neu ragor o’r gweithgareddau y cyfeirir atynt ym Mhwynt 10 o’r Adran sy’n dwyn y pennawd “Cyfleusterau ac Offer” yn Atodiad II i Reoliad 183/2005 | 451.00” |

## ATODLEN 2

Rheoliad 3(4)

“ATODLEN 1

Rheoliad 4(1)

Darpariaethau Penodedig Rheoliad 767/2009

| *Y ddarpariaeth benodedig* | *Y pwnc* |
|---|---|
| Erthygl 4(1) a (2), fel y’i darllenir gydag Erthygl 4(3) ac Atodiad I | Gofynion diogelwch cyffredinol a gofynion eraill sydd i’w bodloni pan osodir bwyd anifeiliaid ar y farchnad neu pan ddefnyddir ef |
| Erthygl 5(1) | Estyn y gofynion mewn perthynas â bwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid sy’n cynhyrchu bwyd mewn deddfwriaeth arall i fod yn gymwys i fwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd |
| Erthygl 5(2), fel y’i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3) | Rhwymedigaeth ar berson sy’n gyfrifol am labelu i roi gwybodaeth ar gael i’r awdurdod cymwys |
| Erthygl 9 | Rheolaethau ar farchnata bwydydd anifeiliaid at ddibenion maethiadol penodol |
| Erthygl 11, fel y’i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3), Atodiadau II a IV a’r Catalog o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid | Rheolau ac egwyddorion sy’n llywodraethu labelu a chyflwyno bwyd |
| Erthygl 12(4) a (5) | Dyletswydd ar weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid i weithredu â phob gofal dyladwy er mwyn helpu i sicrhau cydymffurfedd â gofynion labelu ac i sicrhau bod manylion labelu gorfodol |

| *Y ddarpariaeth benodedig* | *Y pwnc* |
|---|---|
| | yn cael eu trosglwyddo drwy'r gadwyn fwyd ar ei hyd. |
| Erthygl 13(1), fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3) | Amodau cyffredinol ar honiadau ynghylch nodweddion neu swyddogaethau bwyd anifeiliaid wrth ei labelu neu ei gyflwyno |
| Erthygl 13(2) a (3), fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3) | Amodau arbennig sy'n gymwys i honiadau ynghylch gwneud yr eithaf o'r maethiad ac ynghylch cynnal neu warchod yr amodau ffisiolegol |
| Erthygl 14(1) a (2), fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3) | Y gofynion ar gyfer cyflwyno'r manylion labelu gorfodol |
| Erthygl 15, fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3), Atodiad VI a VII ac Erthygl 21 | Gofynion labelu gorfodol cyffredinol ar gyfer deunyddiau bwyd anifeiliaid a bwydydd anifeiliaid cyfansawdd |
| Erthygl 16, fel y'i darllenir gydag Erthyglau 12(1), (2) a (3) ac 21, Atodiad II a V a'r Catalog o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid | Gofynion labelu penodol ar gyfer deunyddiau bwyd anifeiliaid |
| Erthygl 17(1) a (2), fel y'i darllenir gydag Erthyglau 12(1), (2) a (3) ac 21 ac Atodiad II, VI a VII | Gofynion labelu penodol ar gyfer bwydydd anifeiliaid cyfansawdd |
| Erthygl 18, fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3) | Gofynion labelu ychwanegol ar gyfer bwyd anifeiliaid at ddibenion maethiadol penodol (bwydydd anifeiliaid dietegol) |
| Erthygl 19, fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3) | Gofynion labelu ychwanegol ar gyfer bwyd anifeiliaid anwes |
| Erthygl 20(1), fel y'i darllenir gydag Erthyglau 12(1), (2) a (3) ac Atodiad VIII | Gofynion ychwanegol ar gyfer labelu bwyd anifeiliaid nad yw'n cydymffurfio, megis bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys deunyddiau a halogwyd |
| Erthygl 23 | Gofynion sy'n ymwneud â phecynnu a selio deunyddiau bwyd anifeiliaid a bwydydd anifeiliaid cyfansawdd sydd i'w rhoi ar y farchnad |
| Erthygl 24(5) | Gofyniad os defnyddir enw deunydd bwyd anifeiliaid a restrir yn y Catalog o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid, fod rhaid cydymffurfio â holl ddarpariaethau perthnasol y Catalog |
| Erthygl 24(6) | Rhwymedigaeth ar berson sy'n gosod ar y farchnad am y tro cyntaf ddeunydd bwyd anifeiliaid nad yw wedi'i restru yn y Catalog o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid i roi hysbysiad o'i ddefnyddio |

| *Y ddarpariaeth benodedig* | *Y pwnc* |
|---|---|
| Erthygl 25(4) | Gofyniad os dangosir y Codau Cymunedol ar arfer labelu da ar labelu, fod rhaid cydymffurfio â holl ddarpariaethau perthnasol y Codau.” |

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Rheoliadau)*

**1.** Mae’r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 225/2012 sy’n diwygio Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 183/2005 Senedd Ewrop a’r Cyngor o ran cymeradwyo sefydliadau sy’n gosod ar y farchnad, at ddefnydd bwyd anifeiliaid, gynnyrch sy’n deillio o olewau llysiau a brasterau cyfunol ac o ran y gofynion penodol ar gyfer cynhyrchu, storio, cludo a phrofi diocsinau olewau, brasterau a chynnyrch sy’n deillio ohonynt (OJ Rhif L77, 16.3.2012, t.1) (“Rheoliad 225/2012”).

**2.** Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/3368 (Cy.265)) drwy —

(a) ailddatgan y diffiniad o Reoliad (EC) Rhif 183/2005 er mwyn iddo, yn rhinwedd adran 20A o Ddeddf Dehongli 1978, gynnwys y diwygiadau a wnaed gan Reoliad 225/2012 (*rheoliad 2(2)*);

(b) darparu bod unrhyw gyfeiriad yn O.S. 2005/3280 at Atodiad i Reoliad (EC) Rhif 183/2005 i’w ddehongli fel cyfeiriad at yr Atodiad hwnnw fel y’i diwygir o bryd i’w gilydd (*rheoliad 2(3)*);

(c) dynodi’r awdurdodau cymwys at ddibenion gorfodi darpariaethau penodol Rheoliad 225/2012 (*rheoliad 2(4)*); a

(d) darparu ar gyfer ffioedd sy’n daladwy am gymeradwyaethau sefydliadau penodedig (*rheoliad 2(5) ac Atodlen 1*).

**3.** Mae’r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2010 (O.S. 2010/2652 (Cy.220)) drwy —

(a) dileu’r cyfeiriadau at un o offerynnau’r UE sydd wedi ei ddiddymu (*rheoliad 3(2)*); a

(b) gwneud yn fwy eglur eiriad y darpariaethau gorfodi sy’n ymwneud â Rheoliad (EC) Rhif 767/2009 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar osod bwyd anifeiliaid ar y farchnad a’r defnydd ohono (OJ Rhif L229, 1.9.2009, t.1) (*rheoliad 3(3) a (4) ac Atodlen 2*).

**4.** Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn: Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru, Llawr 11, Tŷ Southgate, Stryd Wood, Caerdydd, CF10 1EW.